**Llwyddiant Eisteddfod Gadeiriol Llanarth**

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanarth ar ddydd Gwener Hydref 10fed - y disgyblion lleol yn dangos eu doniau yn y prynhawn, gyda'r adran agored yn yr hwyr.

Gyda llond neuadd bentref yn cefnogi plant ysgol Llanarth, y beirniaid oedd Catrin Evans (Cerdd), Enfys Llwyd (Llefaru) a Sian Heulwen (arlunio a gwaith celf). Bu Ceirios Gruffydd yn cyfeilio i'r plant ysgol. Cafwyd prynhawn cofiadwy, gyda'r beirniaid yn cael gwres eu trad, wrth benderfynu ar yr enillwyr allan o'r 60 o blant fu'n cystadlu! Roedd y seremoni cadeirio yn werth ei gweld gyda disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu'n helaeth i'r digwyddiad, drwy gyrchu, cyfarch a chyd ganu cân y cadeirio. Enillydd cadair Ysgol Llanarth oedd Gwennan Lois Jones a hithau hefyd enillodd y tlws am yr unigolyn gyda'r nifer mwya o bwyntiau yn yr eisteddfod. Diolch i staff ysgol Llanarth am baratoi'r holl blant mor dda.

Yna am 5.30, tro y cystadleuwyr yn yr adran agored oedd hi. Eleni eto, roeddem wedi derbyn gwobrau ychwanegol i'r cystadleuwyr o dan 12 oed. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Gill Hearne (gynt o Fydroilyn a Llanarth) am roi rhodd i'r eisteddfod o rai o'r cwpanau a enillodd hi tra'n cystadlu sawl blwyddyn yn ôl. Yn beirniadu'r adran agored oedd Esyllt Thomas, Mynachlogddu (cerdd) ac Eirian Wyn Jones, Crymych (llefaru). Tudur Jones o Dywyn oedd y cyfeilydd. Llywydd yr Eisteddfod oedd Nelian Williams, gynt o Pantyrhendy, Llanarth. Cafwyd ganddi araith arbennig yn son am ei hamser yn  cystadlu yn eisteddfod Llanarth tra yn yr ysgol. Diolch am ei phresenoldeb drwy gydol y cwrdd nos ac am ei rhodd hael iawn i'r steddfod.

Cafwyd seremoni gadeirio gofiadwy wrth i'r beirniad Einir Wyn Jones lywio'r seremoni a thraddodi'r feirniadaeth. Allan o 18 ymgais, a'r safon yn uchel iawn yn ôl y beirniad, enillydd y gadair oedd merch leol o Dalgarreg, Mali Evans. Diolch i Aled Dafis am lunio'r gadair eleni eto, ac i Esyllt y beirniad cerdd am ganu cân y cadeirio, a Gwenno a Gwennan am gyrchu a chyfarch yr enillydd.

Dyma ganlyniadau yr adran agored - llwyfan
Unawd o dan 6 - 1. Ffion Llywelyn, Llannwnen 2. Iolo James, Llandysul 3. Glain Jones, Llanarth.
Llefaru o dan 6 - Ffion Llywelyn, Llanwnnen 2. Glain Jones, Llanarth.
Unawd 6-8 - 1. Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi 2. Ifan Morris, Llanfihangel ar Arth =3. Ilan Rhun Phillips, Caerfyrddin ac Alaw Mair Richards, Llwyncelyn.
Llefaru 6-8 - 1. Ifan Morris, Llanfihangel ar Arth 2. Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi =3. Ilan Rhun Phillips, Caerfyrddin ac Alaw Mair Richards. Llwyncelyn.
Unawd 8-10 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Lydia Rees, Cross Inn 3. Bethan Llywelyn, Llannwnen.
Llefaru 8-10 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Bethan Llywelyn, Llannwnen 3. Lydia Rees, Cross Inn.
Canu'r piano o dan 12 - 1. ac yn ennill cwpan her Dafydd a John Lloyd, Tegfan - Gruff Rhys Davies, Llandyfriog 2. Alys James, Llwyncelyn =3. Non Thomas, Talgarreg a Gwennan Lois Jones, Llwyncelyn.
Canu emyn o dan 12 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Alys James, Llwyncelyn 3. Efa Medi James, Llandysul.
Alaw werin o dan 12 - 1. Gruff Rhys Davies, Llandyfriog 2. Efa Medi James, Llandysul =3. Hana Sisto, Gorsgoch a Heidi James, Llwyncelyn.
Cerdd dant o dan 12 - 1. Gruff Rhys Davies, Llandyfriog 2. Hana Sisto, Gorsgoch 3. Non Thomas, Talgarreg.
Llefaru 10-12 - 1. Gwenno Jones, Llanarth 2. Efa Medi James, Llandysul 3. Gruff Rhys Davies, Llandyfriog.
Unawd 10-12 - 1. Efa Medi James, Llandysul 2. Alys James, Llwyncelyn =3. Gruff Rhys Davies, Llandyfriog a Molly Rose, Llanarth.

Cwpan her Mr a Mrs Geraint Hughes a'r teulu i'r llefarydd mwyaf addawol o dan 12 - Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi
Cwpan her er cof am Mr a Mrs Wil Evans, Brynawen i'r unawdydd mwyaf addawol o dan 12 - Neli Evans, Talgarreg
Deuawd o dan 18 - 1. Non Thomas a Neli Evans, Talgarreg.
Unawd 12-18 1. Brychan Williams, Llambed 2. Alwena Owen, Llanllwni.
Llefaru 12-18 1. Alwena Owen, Llanllwni.
Cerdd dant 12-18 1. Alwena Owen, Llanllwni
Dweud jôc o dan 16 - Rhannu'r gwobrau rhwng Gwennan Jones, Non Thomas, Efa James, Gwenno Jones, Grug Rees a Lydia Rees.
Canu emyn 12-18 1. Brychan Williams, Llambed 2. Alwena Owen, Llanllwni.
Darllen o nofel dan 16 - 1. Fflur McConnell, Aberaeron.
Alaw werin 12-18 1. Alwena Owen, Llanllwni 2. Brychan Williams, Llambed.
Offeryn cerdd dan 18 - 1. Alwena Owen, Llanllwni 2. Fflur McConnell, Aberaeron.
Cwpan her er cof am James a Megan Rees, Pencae i'r perfformiad mwyaf cofiadwy yn yr adran hŷn - Alwena Owen, Llanllwni.

Dyma ganlyniadau yr adran lenyddiaeth -
Gwobr llenyddiaeth yr ifanc dan 25 ac yn ennill cadair yr eisteddfod - Mali Evans, Talgarreg.
Cerdd ddigri - 1. Megan Richards, Aberaeron 2. Megan Richards 3. Megan Richards.
Limrig - 1. Susan Rees, Lledrod 2. Iwan Thomas, Cilie 3. Myfanwy Roberts, Llanrwst.
Brawddeg - 1. Iwan Thomas, Cilie 2. Carys Briddon, Tre'r Ddol 3. Megan Richards, Aberaeron.

Diolch i bawb a wnaeth yr eisteddfod yn lwyddiant eleni eto, gyda chystadleuwyr niferus a chynulleidfa deilwng yn cefnogi. Welwn ni chi blwyddyn nesa gobeithio!